

COFNODION BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR A GYNHALIWYD AR 13 RHAGFYR 2018
YSTAFELL AUGUSTUS A GWEN JOHN, AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CAERDYDD

Rhif agenda	Nodiadau	Camau gweithredu
	<p>YN BRESENNOL: Carol Bell (yn y Gadair), Laurie Pavelin (Trysorydd); Carys Howell, Catherine Duigan, Glenda Jones; Hywel Ceri Jones; Hywel John; Jessica Seaton; Michael Prior; Victoria Provis; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Janice Lane, Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr; Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu, Heledd Fychan, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p>YN BRESENNOL: Richard Nicholls, Cyfarwyddwr Datblygu, Paul Twamley, Cadeirydd y Bwrdd Datblygu, Peter Owen, MALD.</p>	
	<p>DATGANIAD O FUDD</p> <p>Nododd Jessica Seaton fod ganddi ddiddordeb yn Ymddiriedolaeth Derek Williams – mae ei gŵr James Seaton yn Ymddiriedolwr.</p>	
	<p>Yn Sesiwn Gaeedig y cyfarfod, bu'r Bwrdd yn trafod y canlynol: recriwtio Llywydd ac Ymddiriedolwyr; Astudiaethau dichonoldeb ar gyfer Amgueddfa Chwaraeon i Gymru ac Oriel Gelf Genedlaethol Gyfoes; yr Adran a Bwrdd Datblygu; Sganio'r Gorwel; Tŷ Turner; cymeradwyo benthyciadau rhyngwladol.</p> <p>Yna agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd. Nid oedd neb o'r cyhoedd yn bresennol.</p>	
1	<p>CROESO AC YMDDIHEURIADAU</p> <p>Croesawyd yr Ymddiriedolwyr, yn ogystal â Peter Owen ac Eleri Wynne, Swyddog Cyfathrebu Mewnol a Materion Allanol i'r cyfarfod.</p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rachel Hughes, Kay Andrews a Lesley – Anne Kerr.</p>	
2	<p>COFNODION</p> <p><u>Penderfynwyd:</u> Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 04 Hydref 2018.</p>	
3	<p>MATERION YN CODI</p> <p>4. Cynllun aelodaeth – adroddodd y Llywydd ei bod wedi cyfarfod â Chadeirydd newydd Cyfeillion yr Amgueddfa yn eu cinio Nadolig, a'u bod yn rhannu gweledigaeth o weithio mewn partneriaeth.</p> <p>5.1.7 Casgliadau ac Ymchwil – trafodaeth o gwmpas y bwrdd gyda phrifysgolion ar gyfer cyflwyniad cyhoeddus o'r Strategaeth Ymchwil – byddai'r Gweinidog yn gwerthfawrogi gwahoddiad i'r digwyddiad hwn. Cafodd yr Ymddiriedolwyr drafodaeth eang ar ymgysylltiad yr Amgueddfa â</p>	

	<p>phrifysgolion, aelodaeth y Pwyllgor Ymchwil Ymgynghorol, ymgysylltiad rhyngwladol a Gweledigaeth a nawdd yr Amgueddfa. Cynigwyd y clefyd bacteriol planhigyn f Xylella fel astudiaeth achos o ran nawdd a dderbyniwyd ar gyfer ymchwil, a nodwyd y potensial ar gyfer ymgeisio am gefnogaeth ariannol gan gwmnïau yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymchwil.</p> <p>9.1.1.1 Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn – byddai'r Amgueddfa yn ystyried penodiadau i'r Cynllun hwn ac i Bwyllgorau eraill pan fyddai'r Ymddiriedolwyr newydd wedi eu penodi. Mae cyfarfodydd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn â chworwm.</p> <p>10.1.1.4 GDPR – Mae darpariaeth hyfforddiant wedi cynyddu, gyda gweithgareddau wedi'u targedu ar gyfer yr aelodau staff hynny sy'n fwyaf tebygol o ymdrin â cheisiadau rhyddid gwybodaeth (FOI). <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Bwrdd yn cael y newyddion diweddaraf o ran hyfforddi staff yn Amgueddfa Lechi Cymru.</p>	
4	<p>STRATEGAETH, POLISI A CHYNLLUNIO</p> <p>1. ADOLYGIAD THURLEY</p> <p>1.1. <u>Adroddwyd</u>: Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod yr Amgueddfa mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru am y ceisiadau am nawdd a gyflwynwyd.</p> <p>2. PARTNERIAETH STRATEGOL CYMRU HANESYDDOL</p> <p>2.1. <u>Adroddwyd</u>: Roedd gweithgaredd mapio yn cael ei wneud gan y Cyd-gadeirydd i nodi'r meysydd blaenoriaeth allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys datblygu gwefan treftadaeth Cymru gyfan lle gall pobl gymryd neu drwyddedu delweddau o gasgliadau cyfunol. Cyflwynwyd yr adroddiad Datblygu Sgiliau i'r Bartneriaeth. Roedd Jason Thomas yn gadarnhaol iawn am yr adroddiad a'i argymhellion, gan nodi hefyd fod angen nawdd ar yr aelodau er mwyn symud yr argymhellion ymlaen. Roedd Jason Thomas yn gobeithio y byddai modd lansio rhaglen waith yn y Senedd yn y Gwanwyn. Mae Cynllun Gweithredol yr Amgueddfa yn cynnwys fframwaith ar gyfer archwiliad sgiliau ar draws y pedwar corff, ac wedyn byddai rhaglen yn cael ei datblygu yn cynnwys mentora a datblygu prentisiaethau. Y nod ar gyfer pob sefydliad oedd creu gweithlu mwy amrywiol sy'n croesawu pob un sy'n ystyried Cymru i fod yn gartref iddyn nhw. Mae Aelodau'r Bartneriaeth yn edrych ar ffyrdd o weithio yn fwy cydweithredol gyda'i gilydd ar draws amrywiaeth o feysydd.</p> <p>3. AMGUEDDFA CHWARAEON / PÊL-DROED AC ORIEL GENEDLAETHOL GELF GYFOES</p> <p>3.1. <u>Adroddwyd</u>: Nododd Peter Owen fod trafodaeth lawn wedi ei chynnal yn y Senedd, a bod y Gweinidogion yn edrych am broses ymgynghori eang.</p> <p>3.2. Amgueddfa Chwaraeon / Pêl-droed – adroddodd Peter Owen y gellir symud hon ymlaen drwy bedwar o'r argymhellion. Caiff grŵp gorchwyl ei sefydlu i symud y gwaith yn ei blaen, yn dilyn datganiad ffurfiol gan y Gweinidog.</p> <p>3.3. Oriol Genedlaethol Gelf Gyfoes – nododd Peter Owen gryfder yr adroddiad, a'r costau cysylltiedig ar gyfer rhai o'r cynigion. Nid oedd</p>	

unrhyw un wedi cyrraedd penderfyniad a byddai angen astudiaeth posibilrwydd pellach i ystyried costau a chyfleoedd datblygu cynulleidfa. Roedd arian i gefnogi'r cyfnod posibilrwydd nesaf, ond nid y rhaglen cyfalaf. Mae'r Gweinidog yn glir y dylai Amgueddfa Cymru fod yn rhan o ddatblygu cynigion llawnach, fel aelod o'r Grŵp Llywio. Byddai unrhyw drafodaethau pellach yn cynnwys amrywiaeth eang o gyfranogwyr, gan gynnwys artistiaid, grwpiau o artistiaid, lleoliadau a chyrrff cenedlaethol.

4. PARTNERIAETHAU RHYNGWLADOL – IWERDDON

- 4.1. Adroddwyd:** Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod y Bwrdd yn cael y newyddion diweddaraf ar ddrafftio Memorandwm Dealltwriaeth rhwng yr Amgueddfa ac Amgueddfa Genedlaethol Iwerddon, oherwydd bod Gweinidogion yn chwarae rhan yn y perthynas gydag Iwerddon. Mae'r berthynas hon yn berthynas angenrheidiol ar gyfer Cymru ac Iwerddon.
- 4.2.** Adroddodd y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus ei bod hi, y Cyfarwyddwr Cyffredinol a Peter Owen wedi mynychu cinio ym mhreswylfa'r Llysgennad Prydeinig yn Nulyn. Daeth y digwyddiad hwn â'r sefydliadau diwylliannol ynghyd yn Iwerddon. Roedd trafodaeth gadarnhaol ynghylch cyfleoedd ar gyfer rhannu casgliadau a chynnal trafodaeth agored.
- 4.3.** Croesawodd Catherine Duigan y diweddariad, a dywedodd y canlynol yn y Wyddeleg: Tá athás mór orm a léamh faoin gcairdeas ata idir ân Bhreatain Bhéag agus Éirinn. Tá cultúr, traidisún, agus stair saibhir roinnte againn. Mile buíochas daoibh uilig ân caidreamh seo a spreagadh. Sef, yn y Gymraeg: Rwy'n hapus iawn i ddarllen am y cyfeillgarwch rhwng Cymru ac Iwerddon. Rydym yn rhannu trefnadaeth a hanes cyfoethog. Diolch yn fawr i iawn am feithrin y berthynas hon.
- 4.4. Penderfynwyd:** Yn unol â hynny, ac ardystiodd y Bwrdd weithgaredd gweithredol yr Amgueddfa wrth ddatblygu perthnasau gyda'i phartneriaid Ewropeaidd.

5. POLISI CODI ARIAN MOESEGOL

- 5.1. Derbyniwyd :** Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Datblygu.
- 5.2. Adroddwyd:** Roedd y polisi diwygiedig wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r hinsawdd bresennol ac arfer gorau diweddaraf. Nod hyn oedd sefydlu polisi ar gyfer gwneud penderfyniadau cyfunol y sefydliad o ran derbyn nawdd. Gweithgor yr Amgueddfa fyddai'r corff cyntaf i wneud penderfyniadau. Byddent yn ceisio cyngor y Bwrdd Datblygu a Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa hefyd yn ôl yr angen.
- 5.3.** Nododd Aelodau'r berthynas rhwng y polisi hwn a gwaith y Pwyllgor Moeseg fel rhan o'r Pwyllgor Ymchwil Ymgynghorol, a pholisi Benthyciadau Moesegol yr Adran Gelf. Roedd set graidd o werthoedd ar draws y sefydliad.
- 5.4.** Byddai'r Bwrdd Datblygu yn ystyried y polisi yn eu cyfarfod nesaf.
- 5.5.** Byddai hyfforddi staff sy'n defnyddio astudiaethau achos yn ffordd bwysig o ymgysylltu pobl â'r manylion.

Cyfarwyddwr
Datblygu

	<p>5.6. Nododd Aelodau fod yr Amgueddfa'n trafod unrhyw faterion moesegol gyda MALD.</p> <p>5.7. Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a chymeradwywyd y Polisi. Os bydd gan y Bwrdd Datblygu unrhyw newidiadau sylweddol i'w hargymell, caiff y Polisi diwygiedig ei gyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i'w gymeradwyo yn electronig. Ymddiriedolwyr i gael gwybod os caiff y Polisi ei gyhoeddi ar y wefan.</p>	
5	<p>CASGLIADAU AC YMCHWIL</p> <p>1. GWEITHGAREDDAU A CHAFFAELIADAU CASGLIADAU AC YMCHWIL</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u> : Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u> : Amlinellodd y papur y gweithgareddau allweddol ar gyfer y chwe mis blaenorol, gan gynnwys caffaeliadau. Nododd Aelodau ddatblygiadau o ran y darganfyddiad diweddar, cyhoedduswyd a'r cynnig datblygu gyda Cadw a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Byddai staff yn sicrhau bod agwedd gwbl gyfranogol i arddangos y cerbyd rhyfel, cyn ac ar ôl ei gloddio.</p> <p>1.3. Nododd Aelodau'r cyfleoedd cyfathrebu mewn perthynas â'r gweithgaredd a nodwyd yn yr adroddiad, a bod modd ei ddefnyddio ochr yn ochr â chyflwyniad y Strategaeth Ymchwil yn y digwyddiad yn hwyrach yn y flwyddyn.</p> <p>1.4. Nododd Aelodau werth casgliadau tacsonomeg yr Amgueddfa a hyd yr amser mae'n cymryd i'w datblygu. O ran y clefyd bacteriol planhigyn f Xylella, dim ond nawr mae cysylltiad yr ymchwil â newid hinsawdd yn cael ei weld.</p> <p>1.5. Nododd Aelodau fod Llywodraeth Cymru yn symud tuag at ymchwil a arweinir gan heriau, a bod yr Amgueddfa yn edrych ar hyn o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddai gweithgaredd ymchwil yn y dyfodol yn dibynnu ar gael yr arian perthnasol.</p> <p>1.6. Nododd Aelodau nerth sydd gan bartneriaethau wrth sicrhau nawdd ar gyfer caffaeliadau, gan nodi perthynas yr Amgueddfa ag Ymddiriedolaeth Derek Williams fel enghraifft. Roedd Aelodau'n falch o weld yr amrywiaeth o wrthrychau sy'n cael eu caffael, yn arbennig y rhai hynny sydd o natur gyfoes.</p>	
6	<p>ADOLYGIAD O WEITHGAREDD</p> <p>1. ADRODDIAD ARDDANGOSFEYDD BLYNYDDOL</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd:</u> Adroddiad gan Bennaeth Dros Dro Arddangosfeydd a Rhaglenni.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd:</u> Nododd Pennaeth Dros Dro Arddangosfeydd a Rhaglenni fod yr adroddiad blynyddol hwn yn canmol y rhaglen gweithgareddau a gyflwynwyd i'r Bwrdd y diwrnod blaenorol.</p> <p>1.3. Nododd Ymddiriedolwyr sut mae staff yn cynhyrchu, ystyried a chytuno ar syniadau am arddangosfeydd ar draws yr Amgueddfa. Roedd angen i'r cynllun 3–5 mlynedd fod yn ddigon hyblyg er mwyn cynnwys digwyddiadau a cheisiadau cyfoes. Llongyfarchodd y Bwrdd yr Amgueddfa am ddarparu amrywiaeth mor eang o weithgareddau o fewn yr adnoddau ar gael.</p>	

	<p>1.4. Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol sut mae ymchwil i raglenni cyhoeddus, ar bob ffurf, yn gweithio i gefnogi Gweledigaeth y sefydliad. Mae'r Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr yn paratoi papur ar gyfer yr Uwch Dîm Arwain ynghylch gwaith yr Amgueddfa gydag amgueddfeydd lleol.</p> <p>1.5. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bydd y Bwrdd yn derbyn papur byr yn amlinellu'r egwyddorion cyffredinol sy'n tanseilio sut mae penderfyniadau ynghylch rhaglenni yn cael eu gwneud.</p>	Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr
7	<p>ADOLYGIAD O WEITHGAREDD</p> <p>1. CHWARTER 2 ADRODDIAD AR BERFFORMIAD – CYNLLUN GWEITHREDOL</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u> : Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol / Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u> : Symudwyd ymlaen yn dda iawn yn yr ail chwarter, gyda naw amcan yn cael eu gohirio tan chwarteri hwyrach yn y flwyddyn.</p> <p>1.3. Nododd yr Ymddiriedolwyr fod pob mesur allweddol ar gyfer y chwarter o ran materion ariannol wedi'u cyflawni, gan gynnwys y cynllun arbedion.</p> <p>1.4. Cafodd yr Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen cynnal a chadw cyfalaf.</p> <p>1.5. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a chaiff yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad ei anfon at yr Ymddiriedolwyr.</p>	Ysgrifennydd yr Amgueddfa
8	<p>PROJECTAU MAWR</p> <p>1. Y RHAGLEN CYNNAL A CHADW HANFODOL</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u> : Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad yr Ymwelydd, Pennaeth Adeiladau ac Ystadau, a Rheolwr y Rhaglen Cyfalaf.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u> : Roedd yr Amgueddfa yn ddiolchgar am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ac yn parhau i drafod gyda nhw ynghylch anghenion ariannu pellach.</p> <p>1.3. Atgoffodd Trysorydd a Chadeirydd y Pwyllgor Adolygu Perfformiad Aelodau fod y Pwyllgor wedi craffu ar y rhaglen cynnal a chadw deng mlynedd. Nodwyd yr angen i barhau'r drafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ynghylch anghenion ariannu cyfalaf.</p> <p>1.4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Pwyllgor Adolygu Perfformiad yn cael diweddariad ar y rhaglen cynnal a chadw deng mlynedd.</p> <p>2. PROJECT AILDDATBLYGU SAIN FFAGAN</p> <p>2.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol a Chydlynnydd y Project.</p> <p>2.2. <u>Adroddwyd</u>: Mae'r Gweithgor, Staff a'r Bwrdd yn cydnabod bod agor yr orielau yn gyflawniad mawr ar gyfer yr Amgueddfa a Chymru. Roedd gwaith dal yn cael ei wneud wedi diwedd y contract i ddatrys unrhyw broblemau / ddiffygion.</p>	Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr

	<p>2.3. Nododd yr Aelodau fod y gwaith gwerthuso nawr yn cael ei wneud. Byddai gwerthusiad ar ddiwedd project ar gyfer defnydd mewnol yr Amgueddfa; dogfen i'w chyhoeddi at ddefnydd y cyhoedd; ac adroddiad ar gyfer Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Byddai cymhariaeth o'r gwaith ymchwil sylfaenol a wnaed yn 2012/13, a hefyd, astudiaeth effaith a fyddai'n ystyried gwybodaeth ansoddol a meintiol yn ogystal ag effeithiau economaidd.</p> <p>2.4. Llongyfarchodd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol bawb a oedd yn rhan o'r project. Diolchodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gyhoeddus i'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol a Chyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu fel Cyfarwyddwyr y project. Gellir dweud mai dyma oedd cyflawniad pwysicaf yr Amgueddfa ers degawdau.</p> <p>2.5. Nododd y Gweithgor bwysigrwydd cefnogaeth y Bwrdd wrth gymeradwyo dechrau'r project a'i ddatblygiad parhaol.</p> <p>2.6. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Bwrdd, y Gweithgor, staff ehangach a chyn-lywyddion Paul Loveluck ac Elisabeth yn derbyn diolch am eu hymrwymiad i ddechrau a chyflawni Project Ailddatblygu Sain Ffagan.</p>	Cyfarwyddwr Cyffredinol
9	<p>RHEOLI</p> <p>1. COFNODION DRAFFT O WAHANOL GYFARFODYDD</p> <p>1.1. Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn – Roedd yr Ymddiriedolwyr yn falch o nodi bod 94% o'r cynllun wedi'i ariannu.</p> <p>1.2. Pwyllgor Cynghori Celf – nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod Astudiaeth Posibilrwydd ar gyfer Oriol Genedlaethol Gelf Gyfoes ymysg pethau eraill i'w ystyried, a chynigion ar gyfer arddangosfa deithiol i Awstralia.</p> <p>1.3. Pwyllgor Adolygu Perfformiad – Atgoffodd Cadeirydd y Pwyllgor yr Ymddiriedolwyr am hyd a lled y craffu y mae'r Pwyllgor yn ei roi i faterion a ystyrir ar lefel strategol y Bwrdd.</p> <p>1.4. Pwyllgor Archwilio – Nododd Hywel John, Cadeirydd y Pwyllgor fod yna rywfaint o orgyffwrdd yng ngwaith y pwyllgor, a bod angen adolygu cyfansoddiad a chynrychioliad unigol ar y Pwyllgor.</p> <p>1.5. Mentrau AOCC Cyf. – Nododd Aelodau fod perfformiad yn gryf, a'u bod yn hyderus y byddai'r cwmni yn cyflawni ei dargedau. Byddai'r Dirprwy Rheolwr Mentrau yn mynd ar gyfnod mamolaeth ym mis Ionawr 2019, ac yn amodol ar adnoddau, byddai aelod o staff yn cael ei benodi i weithio yn ei swydd dros y cyfnod mamolaeth.</p> <p>1.6. Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil – Nododd y Bwrdd gyfraniad pwysig y pwyllgor hwn ar gyfer yr Amgueddfa Gyfan. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod adran moesau'r Strategaeth Ymchwil i gael ei hanfon at y Cyfarwyddwr Datblygu i'w hystyried gan y Bwrdd Datblygu.</p> <p>1.7. Bwrdd yr Ymddiriedolwyr – <u>Penderfynwyd</u>: Bod y cofnodion yn cael eu newid i nodi bod cyfnod Kay Andrews yn y swydd yn gorffen yn 2022.</p> <p>2. RHEOLI CORFFORAETHOL A DOGFEN FFRAMWAITH SAFONAU</p> <p>2.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p>	Pennaeth Ymchwil

	<p>2.2. <u>Adroddwyd</u>: Roedd y Bwrdd wedi derbyn eu nodyn atgoffa blynyddol i ddod yn gyfarwydd â chynnwys y ddogfen hon.</p>	
10	<p>DIWEDDARIADAU CYFREITHIOL A RHEOLIADOL</p> <p>1. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL</p> <p>1.1. <u>Adroddwyd</u>: Adroddodd y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu fod y Comisiynydd wedi gofyn i'r Amgueddfa, ac asiantaethau eraill, i gwblhau adroddiad hunanwerthuso ar y flwyddyn ariannol ddiwethaf.</p> <p>1.2. Nododd Aelodau fod Swyddfa Archwilio Cymru â'r dasg o ddatblygu meini prawf gwerthuso i'w defnyddio gydag amrywiaeth o asiantaethau gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn ogystal â'r Amgueddfa. Mynediad ac ymgysylltu fyddai eu prif ganolbwynt nhw. Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y byddai'r Comisiynydd yn mynychu cyfarfod Swyddfa'r Comisiynydd yn Llundain.</p> <p>2. CYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R IAITH GYMRAEG</p> <p>2.1. <u>Adroddwyd</u>: Ni thrafodwyd y mater.</p> <p>3. ADRODDIAD BLYNYDDOL PERCHENNOG BIG PIT AMGUEDDFA LOFAOL CYMRU</p> <p>3.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan Bennaeth Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru.</p> <p>3.2. <u>Adroddwyd</u>: Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad blynyddol i Ymddiriedolwyr ar eu rolau a chyfrifoldebau yn rhinwedd eu rôl fel Perchnogion a Gweithredwyr Pwll Glo.</p> <p>4. CYFRIFON STATUDOL BLYNYDDOL 2017/18</p> <p>4.1. <u>Adroddwyd</u>: Cofnodwyd eu cymeradwyaeth a chyhoeddiad yng nghofnodion cyfarfod diwethaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, drwy grynodedb cofnodion amrywiaeth o gyfarfodydd.</p>	
	<p>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</p> <p><u>Penderfynwyd</u>: Y bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9:00am ar 13 Mawrth 2019 yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.</p>	